Ysgol Gynradd Henblas,Llangristiolus, Bodorgan,
Ynys Môn, LL62 5DR. ☎ 01248 723944
6602156_pennaeth.henblas@hwbcymru.net

19/7/2024

Annwyl riant/gwarcheidwad,

Diolch

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd arall mae ein diolch cyntaf yn mynd i'r plant. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur iawn llawn profiadau. Profiadau, profiadau, profiadau. Profiadau wedi eu harwain gan y plant. Dyna ydan ni eisiau yn Ysgol Henblas. Ynghanol llawer o uchafbwyntiau daeth y flwyddyn i ben gyda digwyddiad hollol arbennig ac unigrwy sef y gig fawr Hwyl Henblas. Mae ein diolch i bawb am helpu i sicrhau llwyddiant y noson yn enfawr.

Dyma ffilm uchafbwyntiau y flwyddyn 2023-24:
https://youtu.be/wkikCbXv7lA

Ffarwelio

Mae'n amser ffarwelio gyda phedwar aelod staff a chadeirydd ein corff llywodraethol:

1.Mae ymroddiad Mrs Eleri Stephen (cadeirydd y corff llywodraethol) i fywyd Ysgol Henblas yn ddibendraw. Mae wedi bod yn aelod ffyddlon, doeth a rhagweithiol dros y deng mlynedd diwethaf. Mae wedi bod yn rhan allweddol o ffyniant yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae ein diolch iddi am fod yn gadeirydd y corff llywodraethol mor arbennig. Bron i ddwy flynedd ers i'w mab ieuengaf adael Ysgol Henblas mae hi wedi parhau i ymroi yn llwyr i fywyd yr ysgol. Diolch yn fawr iawn iawn iddi.

2.Yr wythnos hon daeth y wybodaeth fod Mrs Patricia Williams (Anti Pat) wedi derbyn swydd oriau hirach yn Siwgwr Plwm Henblas. Mae Anti Pat wedi bod yn oruchwyliwr y clwb brecwast ac amser cinio ers 8 mlynedd. Rydym yn gwybod fod y plant yn cael llawer o hwyl gydag Anti Pat wrth chwarae ar yr iard ac roeddent wrth eu boddau ei gweld yn llithro lawr y sleid i'r plant bach! Pob dymuniad da iddi ac fe fyddwn yn colli clywed ei

chwerthin iach!
3. Mae Mrs Kelly Owen wedi bod yn athrawes yn Ysgol Henblas ers 2014 ac yn ei hamser yma wedi bod yn addysgu pob oedran. Ers 2019 mae wedi bod yn addysgu'r dosbarth derbyn/meithrin ac ymhlith ei chyfrifoldebau mae wedi arwain y maes digidol a'r grwp eco. Llwyddodd y grwp Eco gael y wobr Efydd ac Arian yn ystod y tymor diwethaf, ac ymysg yr agweddau gafodd gryn ganmoliaeth oedd llwyddiant y grwp o ran ailgylchu papur a plastic. Bu'r grwp hefyd yn llwyddiannus yn cael grant er mwyn creu gardd wyllt yn yr ysgol. Ymysg ei llwyddiannau mae arwain cor yr ysgol wrth ddod yn fuddugol mewn cystadleuaeth corau Ynys Mon, a pharatoi grwp gymnasteg yr ysgol wrth ddod yn gyntaf drwy Gymru! Rydym yn dymuno pob hapusrwydd i Mrs Owen yn ei swydd newydd gydag Academi Cyngor Gwynedd.
4.Dechreuodd Mrs Susan Legge (Miss Morris) yn Ysgol Henblas ym Mis Medi 2003. Ar y dechrau roedd yn addysgu dosbarth derbyn a blwyddyn 1 a thros gyfnod o 21 mlynedd mae wedi addysgu pob blwyddyn. Ers 2018 mae wedi bod yn addysgu disgyblion blwyddyn 5 a 6 ac wedi bod yn gyfrifol am lawer o agweddau o fywyd yr ysgol gan gynnwys cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, cerddoriaeth, mathemateg, addysg gorfforol, addysg grefyddol, y grwp iach, siarter iaith ac addysg rhywioldeb a chydberthynas. Yn fwy diweddar mae wedi derbyn achrediad diploma Trauma Informed Schools ac wedi cynorthwyo disgyblion o ran iechyd a lles. Mae ei chyfraniad tuag at gynnal yr wythnos iechyd a ffitrwydd blynyddol wedi bod yn werthfawr iawn ac mae'r wythnos yma yn un o uchafbwyntiau bywyd Ysgol Henblas.
5. Yn 2019 ddechreuodd Mrs Paula Harvey (Anti Paula) yn Ysgol Henblas fel gwirfoddolwraig darllen yn ymweld unwaith yr wythnos. Cafodd ei phenodi yn gymhorthydd dosbarth ym mis Mawrth 2020. Ers hynny mae wedi gweithio yn bennaf yn yr adran iau yn cefnogi llawer o ddisgyblion ac mae effaith ei hymyrraeth o ran codi safonau wedi bod yn amlwg. Mae'r disgyblion wedi elwa o'i hymroddiad a pharodrwydd i ddarganfod dulliau amgen er mwyn sicrhau eu datblygiad addysgol. Eleni llwyddodd i dderbyn achrediad diploma Trauma Informed Schools ac mae wedi bod yn rhan fawr o sicrhau llwyddiant y gig Hwyl Henblas.

Diolch i rieni am staff am eich haelioni tuag at Mrs Owen, Mrs Legge a Mrs Harvey. Aeth y casgliad tuag at daleb, blodau a'r gwaith celf hyfryd hwn gan ein aelod staff Mrs Rowena Robinson.



Gwirfoddolwyr

Nodwedd amlwg o fywyd Ysgol Henblas yw cefnogaeth gref ein rhieni a chymuned ehangach. Mae cymaint yn rhoi o'u hamser i roi profiadau arbennig i'r plant wrth gynnal clybiau chwaraeon, sesiynau garddio, gwirfoddolwyr darllen a llawer mwy. Diolch o galon i chi gyd ac mae croeso i unrhyw un

helpu - rhowch wybod os oes ganddoch awydd cynnal clwb neu helpu ym mywyd yr ysgol mewn unrhyw fodd.

Blwyddyn 6
Pob dymuniad da i'r 16 disgybl sydd yn gadael i fynd i Ysgol Gyfun Llangefni. Maent yn ddisgyblion arbennig iawn a phob un yn serennu mewn meysydd gwahanol. Dyma ffilm o'r plant:
https://youtu.be/9yVxCysLW6Q

Mis Medi
1.Bydd HMS ar ddydd Llun 2/9/2024 a dydd Mawrth 3/9/2024. Bydd y plant yn dechrau yn ol ar ddydd Mercher 4/9/2024.

2.Dosbarth melyn:
Bydd Miss Erin Owen yn addysgu oedran derbyn a meithrin yn y dosbarth melyn.

3.Dosbarth gwyrdd a glas
Bydd Mrs Rowena Robinson yn addysgu blwyddyn 1 a 2 ar fore dydd Iau ac yn addysgu blwyddyn 5 a 6 ar bnawn dydd Iau a thrwy dydd Gwener.

4.Dosbarth oren a glas
Bydd cwmni CELS yn darparu sesiwn ar gyfer disgyblion blwyddyn 3 a 4, a sesiwn arall ar gyfer disgyblion blwyddyn 5 a 6 o fis Medi ymlaen. Gallwch gael mwy o wybodaeth am ddarpariaeth cwmni CELS ym maes iechyd, lles a datblygu gwytnwch ar y wefan https://www.celscymru.com/
Dyma adborth ESTYN (corff arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru) ar CELS:
'Mewn sesiynau penodol, maent (disgyblion) yn dysgu sgiliau bywyd pwysig, gan gynnwys pwysigrwydd chwarae a chydweithio. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar feithrin ymddygiad cadarnhaol bron pob disgybl.'
ESTYN, Rhagfyr 2022

Clybiau Gofal Cyn Brecwast
Bydd pris clybiau gofal cyn brecwast yn cynyddu o'r pris cyfredol o £1.25 i £1.50 o fis Medi ymlaen.

Crynodeb o'r flwyddyn ddiwethaf ac edrych ymlaen
Gweler y linc isod yn crynhoi ein llwyddiannau fel ysgol ers Medi 2023, sydd hefyd yn edrych ymlaen i'r flwyddyn academaidd nesaf:
http://ysgolhenblas.org/downloads/170724-crynodeb-ffgy-henblas-23-24.pdf

Zumbathon a stondin gacennau:
Bydd Emily Bratherton yn cynnal Zumbathon (6pm 16/8/2024) a stondin gacennau (17/8/2024) er mwyn codi arian tuag at deulu y diweddar Paul Breeze-Roberts. Cynhelir y ddau yn yr Hen Ysgol Bodorgan. Gofynir yn garedig am gyfraniadau i'r ddau (ni fydd ffi i'r zumbathon).

Dyddiadau pellach HMS 2024-25:
4/11/2024
3/3/2025
2/6/2025
Ac fe fydd un arall - i'w gadarnhau.